**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd, y Pwyllgor Busnes

30 Medi 2022

Annwyl Lywydd

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) – amserlen

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 23 Medi 2022 ynghylch yr amserlen ar gyfer ystyried Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (y Bil) ac effaith y cyfnod o Alar Cenedlaethol ar gyfer Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II ar yr amserlen. Buom yn trafod eich llythyr yn ein cyfarfod ar 26 Medi ac rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Busnes ac i'r Trefnydd am fynd ati'n rhagweithiol i drafod y mater gyda ni.

Er ein bod wedi gallu gwneud rhai addasiadau i'n gwaith craffu arfaethedig, byddem yn croesawu cytundeb y Pwyllgor Busnes i roi estyniad byr i'r terfyn amser ar gyfer adrodd – o 16 Rhagfyr i 23 Rhagfyr. Nid ydym yn credu y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnodau craffu sy'n weddill unwaith y bydd y Senedd yn dychwelyd o'i thoriad Nadolig ym mis Ionawr 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd